**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LG/00682/23

R Medyn Hughes
Chair
Gwynedd Council
eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

29 Tachwedd 2023

Annwyl R Medyn Hughes,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Hydref, ynglŷn â chynigion plannu coed a'r cynnig a fabwysiadwyd gan Gyngor Gwynedd.

Mae eich ymrwymiad i gefnogi'r fferm deuluol Gymreig yn adlewyrchu'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a sefydlwyd yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru). Rhaid ystyried yr amcanion gyda'i gilydd ac nid ydynt yn hierarchaidd. Dyma'r pedwar amcan:

- Cynhyrchu Bwyd a Nwyddau Eraill yn Gynaliadwy
- Arafu'r newid yn yr hinsawdd, ac addasu iddo
- Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt
- Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.

Bydd yr amcanion hyn yn sail i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) a chymorth arall gan y llywodraeth i ffermwyr yng Nghymru. Mae'r SFS yn cael ei gynllunio fel ei fod yn parhau i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ar yr un pryd â mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Newid hinsawdd yw'r risg fwyaf i gynhyrchu bwyd yn lleol ac yn fyd-eang oherwydd tywydd afreolaidd, dirywiad pridd a dadfeiliad ecosystemau. Mae eisoes yn cael effaith sylweddol ar ffermwyr yng Nghymru o ran gorfod newid cyfnodau plannu a chynaeafu. Byddwn yn siomi ein ffermwyr, ein cymunedau ehangach, a chenedlaethau'r dyfodol os na fyddwn yn cymryd camau nawr i osgoi effeithiau gwaethaf newid hinsawdd yn y dyfodol.

Rhaid i ni leihau allyriadau carbon a chynyddu maint y ddalfa garbon yng Nghymru. Rydym wedi cynnig cyfres o gamau SFS, gan gynnwys meincnodi, profi pridd a chamau mwy rhagweithiol yn ymwneud ag iechyd a bioddiogelwch anifeiliaid. Mae pob gweithred wedi'i gynllunio i helpu i wella perfformiad busnes fferm, gan leihau allyriadau carbon hefyd. Ni

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddylid ystyried y dasg o gynyddu'r gorchudd coed heb bwyso a mesur yr ystyriaethau eraill, ond yn hytrach yn rhan o set o gamau gweithredu sy'n ategu ei gilydd.

Bydd coetiroedd sy'n bodoli'n barod a choed unigol mewn caeau a gwrychoedd yn cyfrif tuag at y gofyniad arfaethedig o ran gorchudd coed. Nid ydym yn cynnig 10% ychwanegol at y gorchudd coed presennol. Yn seiliedig ar adborth ffermwyr fel rhan o'r ymarfer cyd-gynllunio helaeth y llynedd, rydym yn mireinio'r weithred plannu 10% o goed i ystyried y sefyllfaoedd pan na fo plannu coed yn bosibl. Er enghraifft, nid yw'n briodol plannu coed ar gynefinoedd â blaenoriaeth neu gynefinoedd o ansawdd uchel, neu ar fawn dwfn, ac efallai na fydd yn bosibl i rai ffermwyr tenant blannu coed. O ganlyniad, rydym yn ystyried addasu'r cynnig gorchudd coed, fel nad yw'n 10% o'r fferm gyfan, ond yn 10% o'r tir sy'n weddill unwaith y bydd ardaloedd na ellir eu plannu wedi'u tynnu o'r cyfrifiad.

Pan fo'n ofynnol plannu rhagor o goed ar ffermydd, bydd rhai ffermwyr yn dewis plannu ar raddfa cae a buddsoddi mewn cnwd pren yn y dyfodol fel rhan o gynlluniau hirdymor i arallgyfeirio busnes y fferm. Ffermwyr sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r gwaith plannu hwn, a thrwy ganolbwyntio ein cefnogaeth ar ffermwyr actif, a lledaenu'r gwaith plannu ar draws pob fferm, rydym yn gobeithio cadw ffermwyr ar y tir a lleihau'r risg y bydd busnesau masnachol yn plannu coed ar draws ffermydd cyfan. Rydym yn datblygu cynllun i gefnogi busnes fferm cadarn, felly nid mecanwaith ar gyfer plannu ffermydd cyfan yw'r SFS.

Mae gwahanol fodelau plannu i'w hystyried ac nid oes rhaid i gynyddu'r gorchudd coed arwain at ddewis rhwng cynhyrchu bwyd a phlannu coetiroedd. Rydym yn parhau i archwilio modelau amaeth-goedwigaeth gyda'r diwydiant, i weld beth yw'r ffordd orau o integreiddio coed fel eu bod yn dod yn gaffaeliad i'r broses o gynhyrchu bwyd, megis lleiniau cysgodi a gynlluniwyd yn ofalus i ddarparu buddion bioddiogelwch ar ffiniau ffermydd, neu a ddefnyddir i amddiffyn rhag tywydd gwael cyffredinol. Gall lleiniau cysgodi godi tymheredd yn y cae yn ystod tywydd oer gan leihau'r gofyn am fwyd neu loches ychwanegol. Rydym yn gweld achosion cynyddol o dda byw yn dioddef o straen gwres yn ystod hafau poeth a gall coed ychwanegol yn y dirwedd ddarparu cysgod gwerthfawr iddynt. Yn sgil hyn, gall coed ddarparu manteision uniongyrchol i'r broses o gynhyrchu bwyd ac i fusnesau fferm.

Bydd effeithiau cronnol cynyddu'r gorchudd coed ynghyd â gweithredoedd eraill SFS fel rheoli cynefinoedd a rheoli pridd yn well o fudd i'r gymdeithas ehangach hefyd drwy arafu llif dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd i gymunedau i lawr yr afon.

Byddaf yn cyhoeddi'r fersiwn nesaf o gynigion SFS cyn bo hir fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus. Ni fydd unrhyw benderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud ar ddyluniad y cynllun tan ddiwedd yr ymgynghoriad hwn.

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**